| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Cyngor Llawn |
| **Dyddiad** | 21 Mehefin 2012 |
| **Teitl** | Atebolrwydd Tâl o fewn Llywodraeth Leol yng Nghymru |
| **Pwrpas** | Cyhoeddi Datganiad Polisi Tâl y Cyngor yn unol ag Adran 38(1) Deddf Lleoliaeth 2011 |
| **Awdur** | Prif Weithredwr – Harry Thomas |
| **Arweinydd Portffolio** | Arweinydd y Cyngor – Y Cynghorydd Dyfed Edwards |

1. Mae gofynion statudol newydd ar bob Cyngor i gymeradwyo datganiadau polisi tâl yn flynyddol. Fel Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, mae gennyf ddyletswydd i gynghori aelodau ar y materion hyn.

2. Mewn gwirionedd, cyn 2009, nid oedd gan y Cyngor hwn bolisi tâl ar gyfer uwch swyddogion - er enghraifft, nid oedd y swyddi hyn wedi'u gwerthuso'n annibynnol ac yn ffurfiol fel swyddi eraill o fewn y Cyngor. Yn 2009 bu i'r Cyngor gymryd mantais o ailstrwythuro'r uwch swyddogion, gan arbed £1m y flwyddyn, er mwyn cymryd y camau cyntaf tuag at sefydlu polisi tâl ar gyfer uwch swyddogion. Atodaf er sylw'r aelodau ddatganiad polisi tâl yn adlewyrchu'r penderfyniad a wnaed yn 2009.

3. Bu i'r Cyngor hefyd benderfynu yn 2009 y dylai ymgymryd ag adolygiadau tâl achlysurol er mwyn sicrhau bod y polisi tâl ar gyfer uwch reolwyr yn parhau'n gyfredol.

4. Mae gan y Cyngor yn awr ddyletswydd statudol i fabwysiadau polisi tâl penodol ar gyfer y flwyddyn hon. Yn fras mae gan y Cyngor dau ddewis:

    (i) Fe all y Cyngor fabwysiadu'r polisi tâl cyfredol fel y nodwyd yn yr atodiad i'r adroddiad yma. Wrth wneud hynny, dylid bod yn ymwybodol nad yw hyn yn golygu na fyddai tâl uwch swyddogion yn newid. Er enghraifft, mae tâl meincnod uwch swyddogion yn y sector cyhoeddus yn gyffredinol wedi cynyddu ers 2009 a byddai gweithredu'r polisi tâl cyfredol, sy'n gysylltiedig â'r meincnodau hyn, yn golygu codiad tâl i rai swyddogion; **NEU**

    (ii) Gall y Cyngor adolygu cynaladwyedd y polisi tâl presennol yn wyneb y farchnad gyflogaeth gyfredol, a chyflwr gyffredinol yr economi a thacluso unrhyw beth sydd angen sylw yn y polisi presennol.

    Pe bai'r Cyngor yn dewis opsiwn (ii), byddai'n syniad i ddirprwyo'r dasg i grŵp llai o aelodau er eu hystyriaeth gan wneud y gwaith ymchwil manwl ac adrodd yn ôl i'r Cyngor llawn gydag unrhyw argymhellion am newid (e.e. Pwyllgor Adnoddau Dynol).

5. **ARGYMHELLION**

Bod y Cyngor ym mabwysiadau polisi tâl ar gyfer y flwyddyn un ai drwy fabwysiadu'r polisi cyfredol neu drwy wneud trefniadau i adolygu priodoldeb y polisi presennol ac ailystyried y mater yn y dyfodol.